| | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r:** | **Pwyllgor Craffu Partneriaethau** |
| **Dyddiad y Cyfarfod:** | **19eg Ebrill 2012** |
| **Swyddog Arweiniol:** | **Pennaeth Gwella Ysgolion a Chynhwysiant** |
| **Awdur yr Adroddiad:** | **Pennaeth Gwella Ysgolion a Chynhwysiant** |
| **Teitl:** | **Darparu Cerddoriaeth mewn Ysgolion (Addysg)** |

## 1. Beth yw byrdwn yr adroddiad?

Ystyried cynnydd y Grŵp Gorchwyl a Gorffen cydweithredol o ran datblygu cynigion mewn perthynas â darparu addysg gerddorol mewn ysgolion, neu fel arall gynigion Sir Ddinbych ar gyfer darparu addysg gerddorol

## 2. Pam cyflwyno'r adroddiad hwn?

Diweddaru'r Aelodau ar y cynnydd mewn perthynas â'r adolygiad o'r ddarpriaeth gerddorol yn Sir Ddinbych gan gynnwys gwaith Grŵp Gorchwyl a Gorffen Cerddoriaeth Gogledd Cymru.

## 3. Beth yw'r Argymhellion?

Bod y Pwyllgor yn ystyried cynnwys yr adroddiad ac yn parhau i gefnogi'r gwaith parhaus mewn perthynas â datblygu cerddoriaeth yn y Sir.

Bod yr Aelodau yn gwneud sylwadau a chefnogi'r cynigion ar gyfer arolwg ehangach o ariannu darpariaeth gerddorol yn Sir Ddinbych.

## 4. Manylion yr Adroddiad

Darperir y Gwasanaeth Cerdd i ysgolion fel rhan o Adran Cyfoethogi'r Cwricwlwm a Lles y Gwasanaeth Gwella Ysgolion a Chynhwysiant. Ar hyn o bryd mae gan Wasanaeth Cerdd William Mathias gytundeb blynyddol i roddi hyfforddiant peripatetig mewn ysgolion a helpu rhedeg *ensembles* y Sir.

Yn ystod 2011-12, sefydlodd Cymdeithas Cyfarwyddwyr Addysg Cymru (ADEW) Grŵp Gorchwyl a Gorffen Gogledd Cymru i adolygu'r ddarpariaeth Celfyddyd a Cherddoriaeth. Gobeithid y byddai hyn yn rhoi cyfle i ystyried y ddarpariaeth leol, gweithio'n rhanbarthol trwy gydweithredu a datblygu persbectif rhanbarthol ar ddarpariaeth celfyddyd ieuenctid.

Mae Grŵp Gorchwyl a Gorffen Cerddoriaeth Gogledd Cymru wedi cyfarfod deirgwaith hyd yma ond nid oes unrhyw gynnydd gwirioneddol wedi ei wneud o ran agwedd gydweithredol. Cymerodd Sir Ddinbych y penderfyniad i barhau gyda'u hadolygiad er mwyn rhwystro'r materion ariannol rhag parhau i flwyddyn ariannol arall.

Yn Rhagfyr 2011 cyflwynwyd adroddiad i ysgolion a oedd yn amlinellu cynigion i ddirprwyo cyllid ar sail y nifer a oedd yn cymryd y gwersi yn lle'r fformiwla flaenorol 50%

Prydau Bwyd Ysgol am Ddim a 50% Nifer Disgyblion. Mae'r adroddiad hwn ynghlwm yn Atodiad 1 (mae'r atodiad hwn wedi ei eithrio rhag datgeliad cyhoeddus yn unol â'r diffiniad ym Mharagraff 14 o Atodlen 12A o Ddeddf Llywodraeth Leol, 1972). Mae'n bwysig nodi bod y cynnig hwn yn ymwneud â chyllid presennol a glustnodwyd ar gyfer cefnogi Cerddoriaeth Beripatetig o £251k yn unig. At hyn mae'r gwasanaeth yn talu £61k i Ymddiriedolaeth William Mathias i ddarparu athrawon llanw a chefnogaeth i *ensembles* sirol.

Mynegodd y Fforwm Cyllidebau Ysgolion bryderon ynglŷn â pham fod yna yn hanesyddol fformiwla benodol ar gyfer Cerddoriaeth pan fo'n ffurfio rhan fechan o'r cwricwlwm. Ar ôl trafodaeth bellach ac ymgynghori penderfynwyd mai'r dymuniad oedd peidio â chreu fformiwla newydd ar gyfer Cerddoriaeth Beripatetig ar gyfer 2012-13 ond yn hytrach ei ystyried fel rhan o Adolygiad Fformiwla ehangach Sir Ddinbych i'w weithredu yn 2013-14.

Cytunwyd yn wyneb hyn y byddai'r dull dyrannu presennol yn parhau ar gyfer 2012-13 (50% Prydau Bwyd Ysgol am Ddim a 50% Nifer Disgyblion) ac yna o 2013-14 byddai cyllid cerddoriaeth beripatetig yn ffurfio ond rhan o'r cwantwm cyfan ar gyfer ysgolion, gyda'r ysgolion yn penderfynu sut maent yn blaenoriaethu/ddyrannu eu cyllid ysgol unigol hwy ar lefel leol.

**5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu tuag at Flaenoriaethau Corfforaethol?**

Mae darparu cerddoriaeth mewn ysgolion yn cyfrannu tuag at yr ymrwymiad i sicrhau bod holl blant a phobl ifanc â hawl i brofi amrywiol gyfleoedd a datblygu talentau penodol er mwyn eu galluogi i sylweddoli eu potensial a chyflawni dyheadau.

**6. Beth fydd yn ei gostio a sut fydd yn effeithio gwasanaethau eraill?**

Ariennir lefel y ddarpariaeth ar hyn o bryd trwy arian a ddirprwyir i ysgolion i ddarparu hyfforddiant cerddoriaeth beripatetig. At hyn, delir swm yn ganolog i dalu cost y cytundeb gyda Gwasanaeth Cerddoriaeth William Mathias, cyflogau'r Cydgysylltwyr a chost prynu offerynnau cerddorol. Gall ysgolion ddewis pasio rhan o gost y gwasanaeth ymlaen i'r rhieni.

**7. Pa ymgynghori a fu?**

Fforwm Cyllideb Ysgolion a Phenaethiaid

**8. Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y medrwn ei wneud i'w lleihau?**

Y gallu i gyflwyno gwasanaeth sy'n perfformio'n uchel sy'n fforddiadwy i ysgolion ac effaith bosibl lefel y taliadau y mae'n rhaid i'r ysgolion eu pasio ymlaen i reini yn eu hysgolion.

**9. Pŵer i gymryd y Penderfyniad**

Ddim yn berthnasol

**Swyddogion Cyswllt:** Pennaeth Gwella a Chynhwysiant Ffôn 01824 708055 a'r Rheolwr Cyllid Addysg Ffôn 01824 712633